# RHEOLIADAU A GWEITHDREFN CYMORTH I ASTUDIO 2026/27

| **Teitl**: Rheoliadau Cymorth i Astudio | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Fersiwn** | **Dyddiad Cyhoeddi** | **Disgrifiad o'r Fersiwn Newydd** | **Awdur** | **Cymeradwywyd gan a'r Dyddiad** | **Dyddiad yr Adolygiad Nesaf** |
| 1.0 | Medi 2016 | Rhifyn Cyntaf | Siobhan Coakley | Bwrdd y Llywodraethwyr 4 Gorffennaf 2016 | Mehefin 2018 |
| 2.0 | Medi 2018 | Ail Rifyn | Siobhan Coakley | Bwrdd y Llywodraethwyr 3 Gorffennaf 2018 | Mehefin 2019 |
| 3.0 | Medi 2019 | Trydydd Rhifyn | Jenny Smith | Bwrdd y Llywodraethwyr | Mehefin 2020 |
| 4.0 | Medi 2022 | Pedwerydd Rhifyn | Scott Seldon / Sarah Page | Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella / Bwrdd Academaidd / Bwrdd y Llywodraethwyr | Mehefin 2023 |
| 5.0 | Medi 2023 | Pumed Rhifyn | Scott Seldon / Sarah Page | | Mehefin 2024 |
| 6.0 | Medi 2024 | Chweched Rhifyn | Scott Seldon / Sarah Page | Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella / Bwrdd Academaidd / Bwrdd y Llywodraethwyr | Mehefin 2025 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 7.0 | Medi 2026 | Seithfed Rhifyn | Scott Seldon/Sarah Page | Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella / Bwrdd Academaidd / Bwrdd y Llywodraethwyr | Mehefin 2027 |

| | **Swydd/Swyddi** |
|---|---|
| **Perchennog**<br>*Y sawl yn y Brifysgol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu'n gywir* | Y Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr |
| **Gweithredu**<br>*Yr unigolyn/unigolion sy'n gyfrifol am sicrhau bod y rheoliadau hyn yn cael eu gweithredu yn ôl y gofyn o ddydd i ddydd* | Y Pennaeth Cymorth a Diogelu |
| **Cyflawni**<br>*Pa unigolion sy'n ymwneud â gweithredu'r rheoliadau hyn?* | Yr holl staff sydd mewn cysylltiad â'r myfyriwr |

## RHAN A: RHEOLIADAU

### 1. Cyflwyniad

1.1. Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i gefnogi llesiant myfyrwyr ac mae'n cydnabod bod ymagwedd gadarnhaol tuag at reoli materion sy'n ymwneud ag iechyd, iechyd meddwl ac anabledd yn hanfodol i ddysgu myfyrwyr, e'u cyflawniad academaidd a'r profiad ehangach i fyfyrwyr. Mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth academaidd a phroffesiynol, y mae disgwyl i'r mwyafrif o anghenion cymorth y myfyrwyr gael eu hateb yn briodol drwyddynt.

1.2. Mae'r Brifysgol yn cydnabod y gallai fod achosion lle y gallai anawsterau sy'n ymwneud ag iechyd, iechyd meddwl neu anabledd arwain at bryderon ehangach ynghylch gallu myfyriwr i ymgysylltu â'i astudiaethau a/neu weithredu'n ehangach fel aelod o gymuned y Brifysgol. Mae'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Cymorth i Astudio'n ceisio hyrwyddo ymyrraeth gynnar, cydweithio gweithredol ac ymagwedd gyson mewn achosion o'r fath, ac mae'n nodi sut y gall y Brifysgol ymateb a'r camau y gallai eu cymryd i reoli'r mater a chefnogi'r myfyriwr.

1.3. Mae'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Cymorth i Astudio'n berthnasol i: -

- Yr holl fyfyrwyr sy'n dilyn rhaglen astudio gyda PDC.
- Myfyrwyr sy'n astudio yng Ngholeg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru. *(ON Dylid darllen unrhyw gyfeiriad at 'gyfadrannau' neu 'gyfadran' yn y rheoliadau fel 'y Coleg'.)*
- Myfyrwyr sy'n astudio cyrsiau prifysgol yn sefydliadau partner y Brifysgol.
- Myfyrwyr sy'n astudio ar leoliadau gwaith neu sy'n ymgysylltu â dysgu seiliedig ar waith.

- Prentisiaid *(ON Dylid darllen unrhyw gyfeiriad at 'fyfyriwr/myfyrwyr' hefyd fel 'prentis/prentisiaid'. Bydd gwybodaeth ar dderbyn amgylchiadau esgusodol ar gyfer prentisiaid a'u canlyniad yn cael ei darparu i Ddeon y Gyfadran (neu enwebai), a fydd yn hysbysu cyflogwr y prentis.)*

1.4. Er bod y rheoliadau a'r weithdrefn yn berthnasol i'r holl fyfyrwyr, bydd angen ystyriaeth benodol os bydd pryder yn cael ei godi ynghylch myfyriwr rhyngwladol sy'n astudio o dan fisa myfyriwr. Bydd cyngor yn cael ei geisio gan y Tîm Gwasanaeth Cynghori Rhyngwladol.

1.5. Mae Siarter Myfyrwyr y Brifysgol yn nodi beth y gall myfyrwyr ei ddisgwyl ac y mae hawl iddynt ei gael wrth astudio ym Mhrifysgol De Cymru. Mae gan y Brifysgol ddisgwyliadau o'r myfyriwr hefyd, a nodir y rhain yn Siarter a Chod Ymddygiad y Brifysgol.

## 2. Egwyddorion Cyffredinol

.

2.1. Gall pryderon Cymorth i Astudio godi lle mae myfyriwr yn profi anawsterau sy'n ymwneud ag iechyd, iechyd meddwl neu anabledd, neu lle mae ei ymddygiad yn dangos anallu i ymgysylltu'n effeithiol â'i astudiaethau sy'n arwain at:

- Berygl i iechyd, diogelwch neu lesiant y myfyriwr a/neu eraill.
- Absenoldeb heb eglurhad, diffyg ymgysylltiad ystyrlon a phriodol ag amgylchedd y Brifysgol, a/neu broblemau o ran perfformiad academaidd.
- Ymddygiad annerbyniol sy'n effeithio'n andwyol ar addysg, dysgu a / neu brofiad myfyrwyr eraill neu weithgareddau o ddydd i ddydd y Brifysgol neu ddarparwr lleoliad (neu mae perygl o hynny).
- Anghenion cymorth unigol sydd y tu allan i'r cymorth a'r gwasanaethau eraill y mae disgwyl i'r Brifysgol eu darparu yn rhesymol fel sefydliad addysg uwch, yn bennaf.

2.2 Dylid mynd i'r afael â Diffyg Ymgysylltiad (A.2.4 o'r Rheoliadau ar gyfer Cyrsiau a Addysgir), lle nad yw'r myfyriwr yn gallu ymgysylltu'n briodol o ganlyniad i anhawster sy'n ymwneud ag iechyd, iechyd meddwl neu anabledd, drwy'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Cymorth i Astudio ar y cam cyntaf. Os nad yw'r myfyriwr yn ymgysylltu â'r broses Cymorth i Astudio ac mae'r pryderon ymgysylltu'n parhau (ond nid ydynt yn bodloni'r meini prawf ar gyfer uwchgyfeirio i Gam 3 Cymorth i Astudio), bydd yr achos yn cael ei atgyfeirio i'r broses Diffyg Ymgysylltiad, lle y bydd pob ymgais i ailymgysylltu â'r myfyriwr yn cael eu hystyried wedi'u cwblhau a bydd y myfyriwr yn cael ei hysbysu'n ffurfiol o'r bwriad i'w dynnu oddi ar y cwrs. Gellir atgyfeirio ymgeiswyr Graddau Ymchwil Ôl-radd y nodir eu bod yn 'anweithredol' yn unol â'r Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil Ôl-radd (3.6)  i'r Rheoliadau a'r Weithdrefn Cymorth i Astudio, lle nad yw'r myfyriwr yn gallu ymgysylltu'n briodol o ganlyniad i anhawster sy'n ymwneud ag iechyd, iechyd meddwl neu anabledd.

2.3 Lle mae ymchwiliad i Ymddygiad Myfyriwr yn amlygu'r angen am atgyfeiriad i'r Weithdrefn Cymorth i Astudio, mae'n bosibl y bydd angen addasu natur a hyd yr ymchwiliad ymddygiad oddi wrth y dull arferol neu mae'n bosibl y bydd angen ei atal dros dro nes bod canlyniadau'r ymchwiliadau o dan y Weithdrefn hon wedi'u cwblhau.

2.4 Gellir cynnal y Weithdrefn Cymorth i Astudio ochr yn ochr â'r ymchwiliad i addasrwydd myfyriwr i ymarfer i alluogi hyblygrwydd o ran y cymorth i fyfyrwyr ar sail eu hanghenion unigol, sy'n galluogi'r myfyrwyr i barhau i astudio ar gwrs sydd â gofynion y Corff Rheoleiddio Proffesiynol neu Statudol lle y bo'n bosibl, gan barhau i sicrhau diogelwch defnyddwyr y gwasanaeth.

2.5 Er bod y Brifysgol yn ceisio gweithio gyda myfyrwyr mewn ysbryd o gydweithio, mae'n bosibl y bydd achosion yn codi lle y bydd yn penderfynu, ar sail y rheoliadau hyn a'r weithdrefn hon, nad yw'r myfyriwr mewn sefyllfa i astudio ar y pryd ac y dylid atal ei gofrestriad dros dro neu ei ddileu.

2.6 Mae'r weithdrefn ar gyfer ymdrin ag achosion Cymorth i Astudiaeth a nodir isod yn cynnwys tri cham. Bydd y weithred fel arfer yn dechrau yng Ngham 1; fodd bynnag, yn dibynnu ar ddifrifoldeb y sefyllfa a difrifoldeb unrhyw risgiau canfyddedig, gellir cychwyn gweithredu ar unrhyw un o'r tri cham. Os teimlir y dylid cychwyn camau yng Ngham 2 neu 3, yna dylid trafod hyn gyda'r Pennaeth Cymorth a Diogelu (neu'r enwebai).

## 3. Rhannu Gwybodaeth a Chyfrinachedd

3.1. Mae'r Brifysgol yn cydnabod bod rheoli achosion Cymorth i Astudio yn effeithiol yn gofyn am rannu gwybodaeth briodol rhwng staff perthnasol ac, lle bo angen, asiantaethau allanol. Dim ond gyda chaniatâd y myfyriwr y bydd gwybodaeth fel arfer yn cael ei rannu. Fodd bynnag, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i rannu gwybodaeth heb ganiatâd pan fo pryder ynglŷn â:

- Risg i ddiogelwch neu les y myfyriwr
- Risg i ddiogelwch neu les eraill
- Pryderon diogelu
- Rhwymedigaethau cyfreithiol neu reoleiddiol

3.2. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu yn unol â Pholisi Diogelu Data'r Brifysgol, deddfwriaeth diogelu data perthnasol, a Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr y Brifysgol. Lle bynnag y bo'n bosibl, bydd myfyrwyr yn cael eu hysbysu pan fydd gwybodaeth yn cael ei rhannu heb eu caniatâd. I gael rhagor o wybodaeth am sut mae eich data personol yn cael ei brosesu, ei rannu a'i storio, gweler yr Hysbysiad Preifatrwydd Myfyrwyr.

## 4. Fframwaith Asesu Risg a Chynyddu

4.1. Bydd pob achos Cymorth i Astudio yn cynnwys ystyriaeth o risg i'r myfyriwr, ei astudiaethau, ac i eraill. Fel arfer, ystyrir risg ar draws y categorïau eang canlynol:

- Risg isel – pryderon y gellir eu rheoli trwy gymorth a monitro lleol
- Risg gymedrol – pryderon parhaus sy'n gofyn am ymyrraeth gydlynol
- Risg uchel – pryderon sylweddol neu uniongyrchol sy'n gofyn am ymyrraeth frys neu uwch

4.2. Bydd lefel y risg yn llywio'r cam y cychwynnir y prosesau Cymorth i Astudio, brys yr ymyrraeth honno a bydd yn tywys y cynnydd rhwng y camau.

## 5. Ymateb i Argyfwng ac Argyfwng

5.1 Lle mae pryder uniongyrchol neu sylweddol ynghylch diogelwch neu lesiant myfyriwr neu eraill a nodwyd yn ystod y broses Cymorth i Astudio, rhaid i staff gymryd camau brys.

Gall hyn gynnwys:

- Cysylltu â'r gwasanaethau brys
- Atgyfeirio at brosesau diogelu mewnol
- Atgyfeirio at brosesau Iechyd Meddwl brys mewnol
- Ymgysylltu ar unwaith â gwasanaethau cymorth arbenigol

Mewn achosion o'r fath, gall camau gweithredu o dan y weithdrefn Cymorth i Astudio rhedeg ochr yn ochr â neu ddilyn ymyriadau brys.

**RHAN B: GWEITHDREFN**

## 1. Cam 1 – Cyfarfod Cymorth a Chreu Cynllun Gweithredu y Gyfadran

1.1. Bydd cydweithwyr y Gyfadran (Staff yr Ysgol i Raddedigion yn achos Graddau Ymchwil Ôl-radd) yn ymgysylltu'n rheolaidd mewn trafodaethau cefnogol â myfyrwyr fel rhan o'u cysylltiadau rheolaidd o fewn y berthynas rhwng y tiwtor a'r myfyriwr. Mae'r ymyriadau cynnar allweddol hyn yn hanfodol i nodi a mynd i'r afael â phryderon sy'n dod i'r amlwg ynghylch iechyd a/neu lesiant myfyriwr a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ei ymgysylltiad / cynnydd academaidd neu aelodau eraill o gymuned y Brifysgol.

1.2. Dylid defnyddio Cam 1 cymorth a chreu cynllun gweithredu lle y bo angen dull mwy strwythuredig, i fynd i'r afael ag achosion lle y bo'r perygl i iechyd a llesiant myfyriwr yn isel; mae eu sefyllfa academaidd yn fregus ond gellir ei adfer ac mae effaith eu hymddygiad ar eraill wedi'i chyfyngu.

1.3. Bydd yr aelod o staff o'r Gyfadran / Ysgol i Raddedigion sydd â phryderon / y mae'r pryderon wedi'u codi â nhw (unigolyn arweiniol) yn trafod y rhain gydag aelodau priodol eraill o staff ac yn casglu unrhyw wybodaeth berthnasol.

1.4. Bydd yr Unigolyn Arweiniol yn gwahodd y myfyriwr i gyfarfod Cymorth i Astudio Cam 1 lle yr amlinellir y pryderon, a bydd cynllun gweithredu'n cael ei drafod. Bydd yr unigolyn arweiniol yn cadw cofnod ysgrifenedig o'r trafodaethau a gynhaliwyd a bydd yn darparu crynodeb o'r camau a/neu argymhellion y cytunwyd arnynt (Ewch i Atodiad 1 i weld dogfen dempled) a allai gynnwys:

- Cynllun i wella ymgysylltiad priodol ac ystyrlon â'r astudiaethau (h.y., pennu blaenoriaethau, targedau ac amserlenni i wella presenoldeb, ymgysylltiad â'r dysgu a'r addysgu, ymgysylltiad ag asesiadau)
- Cyfeirio i gymorth arbenigol i fyfyrwyr a chymorth dysgu yn fewnol neu'n allanol.
- Amgylchiadau esgusodol.
- Saib yn yr astudiaethau
- Newid y dull astudio
- Newid y rhaglen astudio

1.5. Bydd yr Unigolyn Arweiniol yn pennu dyddiad ar gyfer cyfarfod pellach i adolygu'r cynnydd gyda'r myfyriwr i benderfynu a yw'r pryderon wedi'u lleihau'n sylweddol a/neu wedi'u dileu neu a oes angen cymryd camau pellach.

1.6. Mae'n bosibl y bydd adegau lle y bu'r ymdrechion i wella sefyllfa myfyriwr ar Gam 1 yn aflwyddiannus neu lle y bo'r risgiau dan sylw yn golygu bod yn rhaid ei uwchgyfeirio. Mewn amgylchiadau o'r fath, gellir atgyfeirio'r achos i gam 2 neu 3 y weithdrefn (fel sy'n briodol) drwy'r ffurflen atgyfeirio Cymorth i Astudio. Dylai unrhyw achos o atgyfeirio amlinellu difrifoldeb ac effaith yr anawsterau a dylai gynnwys tystiolaeth o'r ymyriadau Cam 1 a weithredwyd hyd yn hyn.

1.7. Yn dilyn atgyfeiriad, bydd y Pennaeth Cymorth a Diogelu (neu enwebai) yn adolygu'r achos i benderfynu a yw Cymorth i Astudio'n broses briodol ac ar ba gam y dylid ystyried yr achos. Mae'n bosibl y bydd yn briodol ac yn angenrheidiol trefnu cyfarfod/cyfarfodydd i adolygu'r achos ar y cam hwn i gasglu gwybodaeth ychwanegol a phenderfynu ar gamau gweithredu priodol.

## 2. Cam 2 – Cyfarfod Achos Cymorth i Astudio

2.1 Bydd cyfarfod achos Cymorth i Astudio wedi'i gadeirio gan y Pennaeth Cymorth a Diogelu (neu enwebai) yn cael ei drefnu gyda'r myfyriwr a staff allweddol o'r gyfadran a'r gwasanaethau proffesiynol (gan gynnwys yr unigolyn arweiniol) fel y bo'n briodol.

Rhoddir hysbysiad o bump diwrnod gwaith i'r myfyriwr o drefniadau'r cyfarfod a bydd yn cael ei hysbysu ynghylch natur y pryderon. Cynigir cyfle i'r myfyriwr gyflwyno datganiad ysgrifenedig a/neu ddod â ffrind, aelod o'r teulu neu swyddog o Undeb y Myfyrwyr gydag ef. Nid rôl yr unigolyn a ddaw gyda'r myfyriwr yw ei gynrychioli, eirioli ar ei ran neu siarad ar ei ran, oni bai y cytunwyd ar hyn fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd. Ni all y myfyriwr anfon unigolyn arall i'r cyfarfod ar ei ran. Rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Brifysgol ynghylch enw a statws yr unigolyn sy'n dod gydag ef o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod.

2.2 Os nad yw'r myfyriwr yn gallu mynychu'r cyfarfod, gwneir pob ymdrech i fodloni ceisiadau rhesymol i aildrefnu. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl, cynhelir y cyfarfod yn ei absenoldeb. Bydd unrhyw ddatganiad ysgrifenedig a ddarperir gan y myfyriwr yn cael ei gyflwyno ar ei ran gan y Cadeirydd a bydd argymhellion yn cael eu gwneud. Rhoddir 5 diwrnod gwaith i'r myfyriwr ymateb i argymhellion y Cadeirydd.

2.3 Bydd y cyfarfod yn gefnogol ei natur a bydd yn annog trafodaeth agored am y pryderon presennol ynghylch gallu'r myfyriwr i ymgysylltu'n briodol ac ystyrlon â'r amgylchedd sefydliad addysg uwch. Bydd y Cadeirydd yn amlinellu'r pryderon a rhoddir cyfle i'r myfyriwr ofyn cwestiynau ac ymateb i'r pryderon a godwyd. Mae'n bwysig sefydlu canfyddiad y myfyriwr o'r sefyllfa ar y cam hwn a sut y mae hyn yn effeithio ar ei astudiaethau.

2.4 Bwriad y cyfarfod fydd cytuno ar gyfres o gamau gweithredu a strategaethau a fydd yn cefnogi'r myfyriwr i wella ei ymgysylltiad â'r cwrs a chanlyniadau posibl. Gallai'r cynllun gweithredu gynnwys: -

- Cynllun i wella ymgysylltiad priodol ac ystyrlon â'r astudiaethau (h.y., pennu blaenoriaethau, targedau ac amserlenni i wella presenoldeb, ymgysylltiad â'r dysgu ac addysgu, ymgysylltiad ag asesiadau).
- Ymgysylltiad priodol ac ystyrlon â'r Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr a Dysgu priodol.
- Mesurau i liniaru'r risgiau i'w hunain / eraill (e.e. cynlluniau diogelwch). Ymgysylltu â Meddyg Teulu / darpariaeth y GIG a / neu wasanaethau allanol priodol eraill.
- Addasiadau Rhesymol
- Amgylchiadau esgusodol
- Newid y dull astudio.
- Newid y rhaglen astudio.
- Saib yn yr astudiaethau gydag adolygiad o'r gefnogaeth i ddychwelyd i astudio wedi'i gynllunio.
- Cais i dynnu'r myfyriwr oddi ar y cwrs (os yw'r myfyriwr yn cytuno)
- Atgyfeirio i Gam 3 y weithdrefn Cymorth i Astudio
- Atgyfeirio i reoliadau/gweithdrefnau eraill y Brifysgol (e.e., y broses Diffyg Ymgysylltiad (ewch i A.2.2), y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil Ôl-radd (3.6) y Weithdrefn Camymddwyn Myfyrwyr, y Weithdrefn ar gyfer Camymddwyn yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol, y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer), fel y bo'n briodol.

2.5 Rhoddir copi o'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno i'r myfyriwr, o fewn 5 diwrnod gwaith i'r cyfarfod (ewch i Atodiad 1 ar gyfer y ddogfen dempled).

2.6 Bydd y Cadeirydd yn pennu dyddiad ar gyfer cyfarfod pellach i adolygu'r cynllun gweithredu fel y bo'n briodol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Yn y cyfarfod adolygu, dylid trafod yr holl bwyntiau allweddol. Gwneir nodiadau a fydd yn nodi un o'r pwyntiau a ganlyn:

- Bod y pryderon wedi'u lleihau'n sylweddol a/neu wedi'u dileu. Bydd y gwaith o weithredu ac adolygu'r cynllun gweithredu yn cael ei reoli ar lefel leol o fewn y Gwasanaethau Cymorth.
- Pryderon yn parhau – angen adolygiad pellach.
- Pryderon yn parhau – atgyfeirio i reoliadau/gweithdrefnau eraill y Brifysgol (e.e., y weithdrefn Diffyg Ymgysylltiad (ewch i A.2.2), y Rheoliadau ar gyfer Graddau Ymchwil Ôl-radd (3.6) y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr, y Weithdrefn ar gyfer Camymddwyn yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol, y weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer), fel y bo'n briodol.
- Pryderon difrifol a pharhaus / dirywiad sylweddol / mwy o risg – Atgyfeirio i Gam 3 y weithdrefn Cymorth i Astudio.

2.7 Darperir copi o'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno at y myfyriwr o fewn 5 diwrnod gwaith ar ôl y cyfarfod.

## 3. Cam 3 – Gwrandawiad Cymorth i Astudio

3.1. Bydd Cam 3 yn cael ei ddechrau os penderfynir bod difrifoldeb neu barhad y sefyllfa yn cyfiawnhau dechrau camau gweithredu ar y cam hwn, neu os na fu Cam 1 a/neu Gam 2 yn llwyddiannus, a bod difrifoldeb neu barhad y sefyllfa yn cyfiawnhau cymryd camau pellach.

3.2. Yn dilyn atgyfeiriad, bydd gwrandawiad Cymorth i Astudio'n cael ei drefnu. Bydd y Panel wedi'i lunio fel a ganlyn:

- Y Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr neu enwebai (Cadeirydd)
- Aelod o staff nad oes ganddo gysylltiad academaidd na phersonol â'r myfyriwr
- Swyddog o Undeb y Myfyrwyr

Mae'n bosibl y bydd y Cadeirydd yn gwahodd aelodau perthnasol eraill o staff i fynychu'r gwrandawiad fel y bo'n briodol, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu i) yr Unigolyn Arweiniol, Deon y Gyfadran (neu enwebai), cynrychiolydd o'r asiantaeth arbenigol fewnol neu allanol berthnasol.

3.3. Rhoddir hysbysiad o 10 diwrnod gwaith i'r myfyriwr o'r gwrandawiad (oni bai bod yr amgylchiadau yn golygu bod angen cyfnod hysbysu byrrach) a bydd yn derbyn copïau o unrhyw ddogfennau sy'n berthnasol i'r gwrandawiad o flaen llaw mewn fformat priodol.

3.4. Rhoddir cyfle i'r myfyriwr ddarparu datganiad ysgrifenedig neu ddogfennau ychwanegol sy'n berthnasol i'w sefyllfa, yn ei farn ef. Os na fydd y myfyriwr yn gallu mynychu'r gwrandawiad, gwneir pob ymdrech rhesymol i'w newid. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn bosibl, gellir cynnal y gwrandawiad yn ei absenoldeb.

3.5. Cynigir y cyfle i'r myfyriwr ddod â ffrind, aelod o'r teulu neu swyddog o Undeb y Myfyrwyr gydag ef. Nid rôl yr unigolyn a ddaw gyda'r myfyriwr yw ei gynrychioli, eirioli ar ei ran neu siarad ar ei ran, oni bai y cytunwyd ar hyn fel addasiad rhesymol oherwydd anabledd. Ni all y myfyriwr anfon unigolyn arall i'r cyfarfod ar ei ran. Rhaid i'r myfyriwr hysbysu'r Brifysgol ynghylch enw a statws yr unigolyn sy'n dod gydag ef o leiaf 48 awr cyn y cyfarfod.

3.6. Mae'r Cadeirydd yn cadw'r hawl i wrthod presenoldeb unigolyn cymorth os penderfynir bod gwrthdaro rhwng buddiannau mewn perthynas â'r unigolyn a enwebwyd.

3.7 Mae'r Cadeirydd yn cadw'r hawl i dderbyn neu wrthod cais am unigolyn cymorth/cynrychiolydd â chymwysterau cyfreithiol i fynychu'r gwrandawiad, gan ddibynnu a roddir rheswm da a chymhlethdod a difrifoldeb yr achos. Rhaid anfon ceisiadau o'r fath at y Cyfarwyddwr Bywyd Myfyrwyr o leiaf 48 awr cyn y gwrandawiad. Os cymeradwyir cais o'r fath, mae'r Brifysgol yn cadw'r hawl i unigolyn sydd â chymhwysterau cyfreithiol fod yn bresennol hefyd. Bydd unigolion cymorth/cynrychiolwyr â chymhwysterau cyfreithiol yn cael eu hysbysu'n glir ynghylch natur y trafodion, h.y., nad ydynt yn broses gyfreithiol ac na fyddant yn cael eu cynnal felly.

3.8 Yn ystod y gwrandawiad Cymorth i Astudio, bydd y Cadeirydd yn amlinellu'r pryderon, gyda chyfeiriad at unrhyw ddogfennau perthnasol, a ddarparwyd i'r myfyriwr a'r Panel dim llai na 5 diwrnod gwaith cyn y gwrandawiad. Rhoddir y cyfle i'r myfyriwr gyflwyno ei ganfyddiad o'r sefyllfa, i ofyn cwestiynau ac i ymateb i'r pryderon a godwyd. Gwahoddir yr unigolion eraill sy'n bresennol yn y gwrandawiad i ofyn cwestiynau neu godi unrhyw faterion y maent yn eu hystyried sy'n berthnasol i'r trafodaethau. Ar ôl sicrhau bod yr holl wybodaeth berthnasol wedi'i darparu, bydd y Cadeirydd yn dod â'r gwrandawiad i ben.

3.9 Bydd y Panel Cymorth i Astudio yna'n ystyried y wybodaeth a ddarparwyd. Bydd yr opsiynau ar gyfer gweithredu yn cynnwys (ond nid ydynt wedi'u cyfyngu i): -

- Gweithredu cymorth ychwanegol (mewnol a/neu allanol).
- Mesurau i liniaru'r risgiau i'w hunain / eraill (e.e. cynlluniau diogelwch)
- Newid y dull astudio.
- Saib yn yr astudiaethau gydag adolygiad cymorth dychwelyd i astudio wedi'i gynllunio
- Tynnu oddi ar y cwrs
- Atgyfeirio'r achos.
- Atgyfeirio i reoliadau/gweithdrefnau eraill y Brifysgol (e.e., y Weithdrefn Ymddygiad Myfyrwyr, y Weithdrefn ar gyfer Camymddwyn yn Neuaddau Preswyl y Brifysgol, y Weithdrefn Addasrwydd i Ymarfer), fel y bo'n briodol.
- Gwrthod yr achos

3.10 Darperir cofnod ysgrifenedig o'r gwrandawiad a'r canlyniad i'r myfyriwr, o fewn pump diwrnod gwaith.

3.11 Lle y penderfynir bod angen ystyried rhagor o ddogfennau, bydd y penderfyniad yn cael ei ohirio i alluogi hyn i ddigwydd. Bydd dyddiad olaf ar gyfer derbyn y dogfennau yn cael ei bennu fel y bo'n briodol a threfnir cyfarfod pellach.

## 4. Cam 3 – Cais am Adolygiad

Seiliau dros adolygu

4.1. Mae gan y myfyriwr yr hawl i wneud cais am adolygiad o'r canlyniad Cam 3 Cymorth i Astudio ar sail un neu fwy o'r rhesymau a ganlyn:

a) Cyflwynir tystiolaeth newydd neu amgylchiadau lliniarol na allai'r myfyriwr fod wedi'u gwneud yn hysbys yn rhesymol ar adeg y penderfyniad gwreiddiol.

b) Mae tystiolaeth o afreoleidd-dra wrth gynnal achosion o natur mor arwyddocaol fel bod yn achosi amheuaeth resymol ynghylch a fyddai'r un penderfyniad wedi cael ei gyrraedd, pe na baent wedi digwydd.

c) Gellir dangos bod y canfyddiadau a'r argymhellion yn anghymesur, o ystyried amgylchiadau'r achos.

4.2. Dylid cyflwyno'r cais am adolygiad ar y Ffurflen Cais am Adolygiad Cymorth i Astudio o fewn **10 diwrnod gwaith** ar ôl i'r penderfyniad gael ei gyfathrebu a dylid ei gyflwyno i: studentcasework@southwales.ac.uk.

4.3. Rhaid i'r cais am adolygiad nodi'n glir y rhesymau pam y mae'n cael ei gyflwyno a rhaid ei ategu â thystiolaeth ategol sy'n cadarnhau un neu fwy o'r rhesymau fel y'u nodir uchod.

4.4. Bydd y penderfyniad i atal rhywun rhag astudio dros dro neu eu gwahardd rhag astudio yn parhau nes bydd y penderfyniad ynghylch y cais wedi'i wneud.

Ystyried y cais am adolygiad

4.5. Bydd y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu'r enwebai) yn ystyried y cais am adolygiad a'r dystiolaeth sy'n gysylltiedig a gall ei wrthod yn yr amgylchiadau canlynol:

a) Ni chyflwynwyd y cais am adolygiad o fewn yr amserlen benodedig.

b) Nid yw'r seiliau dros adolygiad fel y'u nodir o dan 4.1 wedi'u dangos yn ddigonol i gyfiawnhau ystyriaeth bellach gan Banell.

c) Nid yw'r cais am adolygiad yn cael ei gefnogi'n briodol gyda thystiolaeth.

4.6. Os yw'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu'r enwebai) o'r farn nad yw'r achos yn gymwys i'w ystyried ymhellach, byddwch yn cael Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol. Bydd hyn yn eich galluogi i fynd â'ch achos i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol ar gyfer Addysg Uwch, os byddwch yn parhau i fod yn anfodlon â'r canlyniad.

4.7. Os yw'r Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu'r enwebai) o'r farn bod yr achos yn gymwys i'w adolygu, bydd eich achos yn cael ei gyfeirio at Banel Adolygu.

4.8. Bydd penderfyniad y Pennaeth Gwaith Achos Myfyrwyr (neu'r enwebai) yn cael ei gyfathrebu i chi o fewn pum diwrnod gwaith ar ôl derbyn eich cais am adolygiad a'r holl dystiolaeth ategol.

Panel Adolygu

4.9. Os caiff y cais am adolygiad ei gyfeirio at Banel Adolygu, cynhelir gwrandawiad o fewn 20 diwrnod gwaith i'r achos gael ei atgyfeirio. Gall yr amserlen hon gael ei ymestyn

mewn cytundeb â'r myfyriwr neu, mewn amgylchiadau eithriadol, gan y Brifysgol. Bydd hyn yn cael ei drefnu gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr a gwahoddir y myfyriwr i wneud sylwadau yn ysgrifenedig neu yn bersonol. Gellir mynd gyda'r myfyriwr i'r gwrandawiad (bydd yr egwyddorion a amlinellir yn adrannau 3.5-3.7 yn berthnasol).

4.10. Bydd y Panel Adolygu yn cynnwys yr Is-Ganghellor (neu'r enwebai) ac uwch aelod arall o staff y brifysgol nad oes ganddo unrhyw gysylltiad blaenorol â'r achos a bydd yn cael ei gefnogi gan Ysgrifennydd o'r Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

4.11. Yr opsiynau sydd ar gael i'r Panel Adolygu yw:

a) Dylid cynnal canlyniad y Panel Cymorth i Astudio.

b) Ni ddylid cynnal canlyniad y Panel Cymorth i Astudio a:

i) Dylid cynnull Panel newydd i glywed yr achos o'r newydd. Yn yr achos hwn, bydd y Panel Adolygu yn penderfynu a ddylid ailystyried yr achos cyfan, neu elfennau yn unig o'r achos.

ii) Roedd canlyniad y Panel yn anghymesur o ystyried amgylchiadau'r achos a dylid rhoi canlyniad mwy cymesur yn ei le.

4.12 Bydd penderfyniad y Panel yn derfynol. Bydd y penderfyniad yn cael ei hysbysu i chi o fewn pum diwrnod gwaith i'r cyfarfod trwy e-bost i'ch cyfrifon e-bost Prifysgol a phersonol; a/neu, lle mynegwyd ei fod yn well anfon copi caled o ohebiaeth y Brifysgol, i'ch cyfeiriad hysbys diwethaf.

4.13 Os yw'r adolygiad yn arwain at newid canlyniad, bydd y Brifysgol yn sicrhau cyn belled â phosibl nad ydych wedi bod dan anfantais gan unrhyw ganlyniad a benderfynwyd yn flaenorol. Os ydych chi'n parhau i fod yn anfodlon â chanlyniad wedi'i newid, gallwch ofyn am lythyr Cwblhau Gweithdrefnau gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

4.14 Os nad yw'r adolygiad yn arwain at newid canlyniad, rhoddir llythyr Cwblhau Gweithdrefnau i chi yn awtomatig.

## 5. Cam 3 – Dychwelyd i Astudio

5.1. Os yw myfyriwr wedi cytuno i gael saib yn ei astudiaethau neu ei fod wedi'i atal dros dro o ganlyniad i wrandawiad Cymorth i Astudio, dylid trefnu cyfarfod adolygu cyn ei ddyddiad dychwelyd disgwyliedig i benderfynu a yw'n addas i'r myfyriwr ddychwelyd i astudio. Mae'n bosibl y gwneir cais am dystiolaeth feddygol gan y myfyriwr ynghylch ei allu i ymgysylltu'n llawn â'i astudiaethau, i fodloni gofynion y rhaglen ac i fyw'n annibynnol mewn preswylfeydd neu yn y gymuned.

5.2. Mewn achosion prin, bydd cyfnod pellach o atal dros dro yn cael ei drefnu os yw'n ymddangos bod cyfiawnhad drosto o hyd ar sail y dystiolaeth a drafodwyd yn y cyfarfod.

5.3. Lle y penderfynir bod y myfyriwr yn gallu dychwelyd i astudio, bydd 'Cynllun Dychwelyd i Astudio' yn cael ei gytuno yn y cyfarfod. Dylai hwn fynd i'r afael ag unrhyw angen cymorth mewn perthynas ag astudio i alluogi dychweliad llwyddiannus i'r astudiaethau. Penderfynir hefyd pwy fydd yn gyfrifol am weithredu'r canlyniad

angenrheidiol ar gyfer y cam/camau gweithredu a phwy y dylid eu hysbysu ynghylch hyn o bosibl; bydd dyddiadau ar gyfer unrhyw gyfarfodydd adolygu yn cael eu pennu hefyd. Bydd myfyriwr ond yn cael caniatâd i ddychwelyd i'w astudiaethau pan fydd cynllun gweithredu y cytunwyd arno ar waith.

## 6. SWYDDFA'R DYFARNWR ANNIBYNNOL AR GYFER ADDYSG UWCH (OIA)

6.1. Os nad ydych yn hapus â chanlyniad y Weithdrefn hon, gallwch, ar ôl i chi anfon Llythyr Cwblhau Gweithdrefnau'r Brifysgol, gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (OIA).

6.2. Mae manylion yr OIA a'r wybodaeth berthnasol mewn perthynas â'r Cynllun ar gael yn www.oiahe.org.uk. Gellir cael rhagor o wybodaeth a chyngor gan yr Uned Gwaith Achos Myfyrwyr.

Atodiad 1 – Templed cofnodi Cyfarfod Cymorth i Astudio

**Cofnod o'r Cyfarfod Cymorth i Astudio – Cam 1 / Cam 2/ Cam Gwrandawiad 3** (dileur fel y bo'n briodol)

**Dyddiad:**

**Amser:**

**Lleoliad:**

| | **Enw a Rôl** | **Blaenlythrennau** |
|---|---|---|
| **Myfyriwr** | | |
| **Cadeirydd** | | |
| **Yn bresennol** | | |

| **1.** | **Crynodeb o'r Pryderon** | |
|---|---|---|
| | Mae'r myfyriwr yn profi anawsterau iechyd corfforol neu feddyliol sylweddol sy'n arwain at (dilëwch fel y bo'n briodol):<br>• Berygl i iechyd, diogelwch neu lesiant y myfyriwr a / neu eraill.<br>• Absenoldeb heb eglurhad, diffyg ymgysylltiad ystyrlon a phriodol gydag amgylchedd y Brifysgol, a / neu broblemau o ran perfformiad academaidd.<br>• Ymddygiad annerbyniol sy'n effeithio'n andwyol (neu y mae risg o hynny) ar addysgu, dysgu a/neu brofiad myfyrwyr eraill neu weithgareddau o ddydd i ddydd y Brifysgol neu ddarparwr lleoliad. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Anghenion cymorth unigol sy'n dod y tu allan i gwmpas y gefnogaeth a gwasanaethau eraill y mae disgwyl i'r Brifysgol eu darparu yn rhesymol fel sefydliad addysg uwch, yn bennaf. | |
| **2.** | **Crynodeb o'r Drafodaeth** | |
| | • Trosolwg academaidd – proffil o'r ymgysylltiad a'r perfformiad academaidd<br>• Rhwystrau i ymgysylltu / anghenion cymorth unigol<br>• Perygl i ddiogelwch / llesiant y myfyriwr<br>• Effaith ar gymuned ehangach y Brifysgol<br>• Cymorth presennol<br>• Ffynonellau cymorth posibl / addasiadau rhesymol / dulliau cefnogol (e.e. Saib yn yr Astudiaethau, newid y dull astudio, ac ati) | |
| **3.** | **Cynllun gweithredu** | |
| | • | |
| **4.** | **Dyddiad adolygu / Canlyniad** | |